



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Sut rydym yn gweithredu'r Canllaw Arfer '*Rheoli Coedwigoedd mewn Dalgylchoedd Dŵr sy'n Sensitif i Asid*' yng Nghymru

Mai 2017

Nodyn Cyfarwyddyd 001

Perchennog y Ddogfen: Y Bwrdd Busnes Rheoleiddiol

Hanes Fersiynau:

Fersiwn y Ddogfen	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o'r Newidiadau
1.0	Mai 2017	Crëwyd y ddogfen

Dyddiad Adolygu: Mai 2019

Hysbysiad

Mae holl Nodiadau Canllaw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu gwarchod gan hawlfraint. Byddwch yn ymwybodol bod yn rhaid i'r defnydd o unrhyw ddeunydd o'r ddogfen hon gael ei wneud yn unol â Datganiad Hawlfraint a Hysbysiad Ymwadiad Safonol Cyfoeth Naturiol Cymru, y mae copi ohono ar gael gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth ar accesstoinformationteam@naturalresourceswales.gov.uk. Bydd unrhyw benderfyniad ynghylch aildefnyddio'r wybodaeth hon yn unol â Rheoliadau Aildefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2005, ac eto ceir gwybodaeth gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth.

Cynnwys

1. Crynodeb	3
2. Cyflwyniad	3
3. EgwManylion cyswllt ar gyfer rhagor o wybodaethyddorion.....	4
4. A yw fy nghynnig o fewn dalgylch sy'n sensitif i asid?	5
5. Plannu newydd mewn Dalgylchoedd sy'n Sensitif i Asid - Aseidiadau Llwyth Critigol	6
5.1 Pryd bydd angen asesiad?	6
5.2 Pa gamau mae angen eu cymryd?.....	7
6. Cwmpo coed mewn Dalgylchoedd sy'n Sensitif i Asid – Aseidiadau Effaith ar Safle	9
6.1 A oes angen Aseiad Effaith ar Safle arnaf?	9
6.2 Pa gamau mae angen eu cymryd?.....	9
7. Ailstocio mewn Dalgylchoedd sy'n Sensitif i Asid.....	11
7.1 Mesurau Rheoli	11
8. Opsiynau ar gyfer Samplu Dŵr.	11
8.1 Aseidiadau Llwyth Critigol	11
8.2 Gallu Niwtraleiddio Asid	12
9. Calchu.....	12
10. Manylion cyswllt ar gyfer rhagor o wybodaeth	12
11. Dolenni defnyddiol	13

1. Crynodeb

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r awdurdod ar gyfer rheoleiddio coedwigaeth a rheoleiddio dŵr yng Nghymru.

Nod y canllaw yw dangos sut mae CNC yn gweithredu gofyniad Arfer Da Coedwigaeth Safon Coedwigaeth y DU ar gyfer Coedwigoedd a Dŵr:-

“Lle y cynigir plannu coed newydd neu ailstocio o fewn dalgylchoedd cyrff dŵr mewn perygl o gael eu hasideiddio, dylid cynnal asesiad o gyfraniad coedwigoedd at asideiddio a'r broses ar gyfer adfer; dylid cytuno ar fanylion y weithdrefn asesu gyda'r awdurdod rheoleiddio dŵr.”

Rydym yn asesu cynigion ar gyfer plannu coed newydd, cwmpo coed ac ailstocio gan ddefnyddio'r fethodoleg a amlinellir yn y Canllaw Arfer *Rheoli Coedwigoedd mewn Dalgylchoedd sy'n Sensitif i Asid* (y cyfeirir ato fel 'y Canllaw Arfer' yn y ddogfen hon) i amddiffyn ardaloedd y gwyddys eu bod yn agored i ddifrod ecolegol o ganlyniad i asideiddio dŵr croyw.

Dylai'r Canllaw Gweithredu hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r Canllaw Arfer a [Chanllawiau Coedwigoedd a Dŵr](http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-8BVGX9) <<http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-8BVGX9>> Safon Coedwigaeth y DU.

2. Cyflwyniad

Mae asideiddio'n effeithio ar rannau mawr o Gymru ac mae'n parhau i fod yn rheswm sylweddol dros lawer o'n hafonydd a'n llynnoedd yn methu â bodloni Statws Ecolegol Da Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE.

Er bod gostyngiadau mewn allyriadau llygryddion sy'n peri asideiddio i'r atmosffer wedi arwain at welliannau i ansawdd dŵr, mae asideiddio'n parhau i gael effeithiau andwyol ar ecoleg dŵr croyw, gan gynnwys pysgodfeydd.

Gwyddys bod coedwigaeth yn dylanwadu ar lefel yr asideiddio, yn bennaf o ganlyniad i allu canopiâu (conwydd a choed llydanddail) i gasglu rhagor o lygryddion asideiddio (syllffwr a nitrogen) o'r atmosffer na mathau byrrach o lystyfiant. O ganlyniad, mae angen rheoli coedwigoedd o fewn ardaloedd sy'n agored i asideiddio mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw'n arwain at ragor o asideiddio neu oedi wrth adfer dyfroedd i Statws Ecolegol Da.

Mae'r Canllaw Arfer yn berthnasol i'r holl gyrff dŵr y mae gwaith cwmpo coed yn peri iddynt fethu â bodloni Statws Ecolegol Da, neu y mae ganddo'r potensial i beri iddynt fethu, trwy waethygu problemau asideiddio.

Mae Safon Coedwigaeth y DU yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ac ymarfer coedwigaeth da yn y DU, gan roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar berchnogion, rheolwyr ac ymarferwyr coedwigaeth i fodloni a chydymffurfio â gofynion rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Mae'r Canllaw Arfer yn rhoi gwybodaeth ategol ac yn nodi angen i asesu sensitifrwydd rhai dalgylchoedd dŵr croyw i asideiddio yn yr amgylchiadau canlynol:

- Wrth ystyried cynigion i sefydlu coetir newydd o dan broses reoleiddiol Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer coedwigo
- Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau cwmpo coed a'r broses o gynnwys amodau ar gyfer ailstocio
- Wrth ystyried cynigion i gwmpo coed er mwyn defnyddio'r tir at ddibenion eraill o dan broses reoleiddiol Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer datgoedwigo (lle mae'r cynigion yn mynd dros y trothwyon a amlinellir yn y Canllaw Arfer)
- Wrth ddatblygu cynlluniau a chynigion ar gyfer rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru

Mae'r gofynion yr un mor berthnasol i gynigion sy'n cael eu cefnogi gan daliadau'r Cynllun Datblygu Gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru.

3. Egwyddorion

Byddwn yn cymhwyso'r egwyddorion canlynol wrth inni weithredu'r Canllaw Arfer:


- Ni fyddwn yn disgwyl i'r Canllaw Arfer gael ei weithredu yn ôl-weithredol ar gyfer cynlluniau rheoli coedwig neu amodau trwyddedau cwmpo coed sydd wedi cael eu cymeradwyo eisoes.
- Byddwn yn annog y defnydd o fesurau rheoli coedwig priodol i leihau effaith coedwigaeth.
- Byddwn yn ceisio lleihau oedi i geisiadau yr effeithir arnynt, ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rôl mewn modd ymarferol ac amserol.
- Byddwn yn gweithredu gofynion y Canllaw Arfer yn y coetir rydym yn ei reoli ar ran Llywodraeth Cymru.
- Pan fydd angen gwybodaeth ychwanegol arnom i ategu cynnig, byddwn yn gweithio gyda chi i gytuno ar yr hyn sydd angen ei wneud.
- Byddwn yn disgwyl i'r ymgeisydd dalu holl gostau samplu a labordy am ddangos na fydd ei gynlluniau'n cael effaith negyddol ar ansawdd dŵr.
- Pan fydd angen ichi gomisiynu gwaith samplu dŵr fel rhan o'r broses reoleiddio, bydd y 'cloc' ar yr amserlen yn cael ei atal nes bod y samplau wedi cael eu casglu a'u dadansoddi, a byddwn yn trafod unrhyw estyniad i'r amserlenni a bennwyd â chi.
- Bydd unrhyw apelïadau sy'n codi o ganlyniad i weithredu'r Canllaw Arfer yn cael eu cynnal trwy'r broses apelio berthnasol ar gyfer Asesu Effeithiau Amgylcheddol neu drwyddedau cwmpo coed.

4. A yw fy nghynnig o fewn dalgyrch sy'n sensitif i asid?

Byddwn yn archwilio ceisiadau i weld a ydynt mewn dalgyrch sy'n sensitif i asid, ond gallwch wirio eich cynnig eich hun trwy ddefnyddio'r [fersiwn gyfredol o'r mapiau](#) sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru *Lle*.

Er mwyn rhoi darluniad, mae Map 1 yn dangos cyrff dŵr sy'n sensitif i asid ar gyfer 2016, lle mae cyrff dŵr yn methu â bodloni amcan Statws Ecolegol Da Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE, neu mewn perygl o wneud hynny.

Map 1: Dalgyrchoedd cyrff dŵr sy'n sensitif i asid yng Nghymru (2016)¹



¹Mae'r ardaloedd sy'n sensitif i asid yng Nghymru yn wahanol i'r rhai a ddangosir ar y map yn y Canllaw Arfer oherwydd i'r asesiad risg a'r dosbarthiad ar gyfer Cymru gael eu diweddarau yn 2016.

5. Plannu newydd mewn Dalgylchoedd sy'n Sensitif i Asid - Aseidiadau Llwyth Critigol

Y llwyth critigol yw'r lefel o gyfansoddion asideiddio sy'n cael eu dyddodi y gellir eu dal cyn i newidiadau cemegol beri effeithiau niweidiol tymor hir ar ecosystemau. Mae Aseiad Llwyth Critigol yn defnyddio data ynglŷn â chyfansoddiad cemegol dŵr i gyfrifo'r llwyth critigol ac i benderfynu a aed drosto neu a eid drosto o ganlyniad i gynnyg.

5.1 Pryd bydd angen aseiad?

Ni fyddwn yn disgwyl aseiad llwyth critigol ar gyfer plannu newydd arfaethedig ond pan fydd mewn dalgylch sy'n sensitif i asid sy'n 'Methu' neu sy'n mewn 'Perygl o Fethu' ac:-

- mae unrhyw ran o'r tir mewn Gwarchodfa Natur Genedlaethol, Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, neu
- lle mae Aseiad Llwyth Critigol² wedi cael ei gynnal yn flaenorol sy'n nodi yr aed dros y llwyth critigol eisoes ac mae'r plannu arfaethedig dros bum hectar, neu
- **nid** yw'r cynllun coetir yn bodloni'r gofynion uwch a restrir isod (mae'r rhain yn fersiynau uwch o ganllawiau a gofynion dethol Safonau Coedwigaeth y DU sy'n benodol i ardaloedd sy'n sensitif i asid)

Gofynion Uwch

1. Bod cyrsiau dŵr a chyrrff dŵr yn cael eu nodi a bod clustogfeydd yn cael eu sefydlu a'u cynnal i amddiffyn parthau dyfrol a thorlannol rhag gweithgareddau cyfagos.
2. Bod draeniau coedwig yn cael eu cynllunio a, lle bo angen, draeniau sydd eisoes yn bodoli'n cael eu halinio i sicrhau bod dŵr yn cael ei ryddhau'n araf i glustogfeydd ac nid yn uniongyrchol i gyrsiau dŵr.
3. Bod cyfansoddiad coedwig yn cael ei amrywio er mwyn sicrhau nad oes mwy na 75% o'r uned rheoli coedwig yn cael ei glustnodi ar gyfer rhywogaeth sengl a bod y meini prawf gofynnol canlynol yn cael eu cynnwys: • 20% lle agored; • 10% o rywogaethau eraill neu dir sy'n cael ei reoli at ddibenion amgylcheddol; • 5% o goed llydanddail neu brysgwydd brodorol.
4. Y cynllunnir ar gyfer cymysgedd o gynefinoedd o dan gysgod neu gysgod ysgafn o fewn y parth torlannol – gorchudd canopi o tua 50% ar gyfartaledd ond wedi'i arwain gan amgylchiadau lleol a gofynion y rhywogaethau sydd â blaenoriaeth.
5. Yn y parth torlannol, y rhoddir blaenoriaeth i rywogaethau o goed a phrysgwydd brodorol ac y rheolir lledaeniad rhywogaethau goresgynnol ac anffrodorol.
6. Bod y gwern sy'n cael eu plannu'n cael eu cyfyngu i lai na 10% o'r arwynebedd o fewn y parthau torlannol.
7. Ar gyfer ffyrdd a llwybrau sy'n arwain at ddŵr, bod y defnydd o ddeunyddiau sy'n arwain at ddŵr ffo metalaidd, llawn sylffid neu sydd wedi'i lygru'n gryf ag asid yn cael ei osgoi.

² Os ydym yn ymwybodol o hyn byddwn yn eich hysbysu. Ni allwn ddarparu'r dystiolaeth ategol pan fydd hon wedi cael ei hariannu'n breifat at ddibenion ymgeisydd ei hun oni bai ei fod yn rhoi caniatâd.

8. O fewn clustogfeydd diffiniedig, bod amaethu'n cael ei gyfyngu i godi twmpathau colyn.
9. Yr osgoir draeniau coedwig sy'n rhyddhau'n uniongyrchol i gyrsiau dŵr.
10. Bod draeniau coedwig yn cael eu halinio i redeg ar raddiant uchaf o 2° (3.5%) a'u bod yn cael eu harwain tuag at flaenau'r cymoedd.
11. Nad yw unrhyw arllwysiad yn arwain at ddadsefydlogi glannau neu wely'r cwrs dŵr derbyn.
12. Bod adeiladu ffyrdd yn cael ei gyfyngu i'r tu allan i glustogfeydd torlannol, ar wahân i le maent yn croesi cyrsiau dŵr.
13. Lle bydd cwlferei'n cael eu gosod, eu bod yn cael eu lleoli yn y man lle mae'r cwrs dŵr yn cwrdd â ffordd neu lwybr i osgoi arllwys y cwrs dŵr i'r draen wrth ochr y ffordd.

5.2 Pa gamau mae angen eu cymryd?

Cam 1 Rhaid ichi wneud cais i CNC am [benderfyniad barn ynglŷn â'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol](#). Bydd angen ichi gyflwyno [Ffurflen Barn](#) i'r tîm trwyddedu (coedwigaeth) yn forestregulations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Cyn cyflwyno eich cais, dylech wirio a yw'r cynnig o fewn dalgyrch sy'n 'methu' neu 'mewn perygl o fethu' trwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru Lle. Os ydyw, yna dylech wirio a ydym yn cadw gwybodaeth sy'n dangos yr aed dros y llwyth critigol eisoes.

Cam 2 Lle mae'r cynnig yn bodloni'r meini prawf a nodir yn 5.1.1 uchod, yna byddwn yn parhau â'r penderfyniad barn ynglŷn â'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol heb ofyn ichi am ragor o wybodaeth.

Lle nad yw'n bodloni'r meini prawf, bydd angen Cam 3.

Cam 3 Yna byddwn yn asesu a yw'r plannu arfaethedig newydd mewn dalgyrch neu is-ddalgyrch gyda thros 30% o orchudd canopi caeedig sy'n bodoli eisoes neu a fydd y plannu newydd yn mynd â'r gorchudd canopi caeedig i dros 30%.

Os yw'r plannu arfaethedig newydd mewn dalgyrch neu is-ddalgyrch gyda llai na 30% o orchudd canopi caeedig, fel arfer byddwn yn gallu parhau â'r penderfyniad barn ynglŷn â'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol heb ofyn ichi am ragor o wybodaeth.

Wrth inni gynnal yr asesiad hwn, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael megis y Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol, ffotograffau o'r awyr, mapiau Arolwg Ordnans a gwybodaeth leol. Ni fyddwn yn ystyried lleiniau cysgodi, gwrychoedd na choetiroedd ffermydd bach o dan bum hectar.

Cam 4 Os yw'r ardal blannu arfaethedig newydd mewn dalgylch neu is-ddalgylch gyda thros 30% o orchudd canopi caeedig, bydd angen Asesiad Llwyth Critigol a bydd y cloc yn cael ei atal ar gyfer gwneud penderfyniad barn ynglŷn â'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol.

Os oes angen Asesiad Llwyth Critigol, byddwn yn gofyn ichi ymgysylltu â labordy cymwys i gasglu a dadansoddi samplau dŵr (gweler Adran 8). Gallwn ni roi cyngor ynglŷn â labordai posibl ond bydd yn rhaid ichi drafod telerau ac amodau ar gyfer y samplu dŵr a'r adrodd â'r labordy a ddewisir, gan gynnwys y ffioedd a'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Bydd y labordy'n rhoi cyngor ynglŷn â'r fethodoleg ar gyfer samplu dŵr. Bydd y labordy'n dadansoddi'r samplau ac yn rhoi adroddiad ichi. Os nad yw'r dadansoddiadau cychwynnol o'r samplau dŵr yn dod i gasgliad, mae'n bosibl y bydd y labordy'n argymhell bod y broses samplu dŵr yn cael ei chynnal dwywaith yn rhagor yn unol â'r Canllaw Arfer.

Cam 5 Os yw'r adroddiad am yr Asesiad Llwyth Critigol yn nodi bod y dyddodiad asid yn llai na'r llwyth critigol, mae'n debygol na fydd eich plannu arfaethedig newydd yn peri risg. Byddwn yn ailddechrau'r broses o wneud penderfyniad barn ynglŷn â'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol ac yn anfon ymateb atoch o fewn 28 diwrnod.

Cam 6 Os yw'r adroddiad am yr Asesiad Llwyth Critigol yn nodi yr aed dros y llwyth critigol, ystyrir bod y corff dŵr mewn perygl o asideiddio pellach gan y plannu arfaethedig newydd. Bydd y penderfyniad barn ynglŷn â'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol, felly, yn dod i'r casgliad y gallai eich plannu arfaethedig newydd gael effaith amgylcheddol arwyddocaol, ni waith a oes unrhyw ffynonellau asideiddio eraill yn y dalgylch nad ydynt yn ymwneud â choedwigaeth.

Yn yr achos hwn, eich prif opsiwn fydd lleihau maint y plannu i o dan 30% o'r canopi coedwig caeedig yn y dalgylch, neu gyflawni hyn trwy ailddylunio'r goedwig sy'n bodoli eisoes. Os yw'r opsiwn hwn yn ymarferol, gallwn drafod y mater â chi a diwygio'r cais am benderfyniad barn ynglŷn â'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol. Byddwn wedyn yn ailasesu'r penderfyniad ynglŷn â'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol ac yn gwneud penderfyniad newydd o fewn 28 diwrnod.

Mae'n bosibl y bydd yn well gennych leihau maint y plannu cyn ichi ymrwymo i Asesiad Llwyth Critigol a hefyd cewch chi drafod yr opsiwn hwn â ni.

6. Cwmpo coed mewn Dalgylchoedd sy'n Sensitif i Asid – Asesiadau Effaith ar Safle

Mae Asesiad Effaith ar Safle yn ddull ar gyfer penderfynu a allai cynlluniau cwmpo coed gael effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr croyw trwy ryddhau nitradau, a all arwain at asideiddio. Ni fydd pob gweithrediad cwmpo coed yn gofyn am asesiad.

6.1 A oes angen Asesiad Effaith ar Safle arnaf?

Mae Safon Coedwigaeth y DU yn gwneud asesiad effaith ar safle yn ofynnol lle mae'r cwmpo coed arfaethedig mewn dalgylch sy'n sensitif i asid sy'n 'Methu' neu sydd 'Mewn Perygl o Fethu', a lle bydd y cynnig arfaethedig yn arwain at fwy na 20% o'r dalgylch unigol hwnnw yn cael ei gwmpo mewn unrhyw gyfnod o dair blynedd (cyfnod treigl o 36 mis). Mae hwn yn drothwy cynyddol a bydd cwmpo coed gan bobl eraill yn y dalgylch yn cael ei ystyried wrth gyfrifo'r cyfanswm.

Ni fydd angen asesiad effaith ar safle ar gyfer:

- cwmpo coed ar raddfa fach lle nad oes angen trwydded cwmpo coed
- gweithrediadau teneuo – oherwydd maint bach arferol gweithrediadau o'r fath a'r ffaith y disgwylir y bydd coed cyfagos yn dargadw unrhyw nitrad sy'n cael ei ryddhau

6.2 Pa gamau mae angen eu cymryd?

Cam 1 Dylech wneud cais inni am [Drwydded Cwmpo Coedyn y ffordd arferol](#).

Fel arfer, mae gennym amserlen o ddeg wythnos i ymdrin â'ch Cais am Drwydded Cwmpo Coed. Fodd bynnag, pan fydd angen rhagor o wybodaeth, megis ar gyfer Asesiad Effaith ar Safle, mae'n bosib y bydd angen rhagor o amser arnom i wneud penderfyniad – trafodir y mater hwn â chi.

Mae'n bosibl y bydd angen [Asesiad Effaith Amgylcheddol](#) arnoch hefyd os **nad ydych** am ailstocio ar ôl cwmpo coed.

Cam 2 Byddwn yn gwirio a yw'r cais mewn ardal sy'n sensitif i asid. Os ydyw, byddwn yn cyfrifo canran y dalgylch(oedd) a gwmpwyd, neu lle y rhoddyd cymeradwyaeth ar gyfer cwmpo coed eisoes, yn y 36 mis cyn eich cwmpo coed arfaethedig. Caiff mwy nag un ymgeisydd wneud cais am drwyddedau yn yr un dalgylch.

Byddwn yn eich hysbysu os yw eich cynnig yn mynd heibio i'r trothwy ar gyfer y dalgylch.

Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, megis cwmpo coed i reoli plâu ac afiechydon, neu lle bydd cwmpo coed rhannol yn arwain at ddymchwel gan y gwynt a'r risg y bydd cyrsiau dŵr yn cael eu gwaddodi, mae'n bosibl y byddwn yn cytuno ar eithriadau, ond fel arfer byddwn yn gofyn am fesurau rheoli i leihau risg neu effaith trwytholchiad nitrad yn hytrach na symud ymlaen i Gam 3.

Cam 3 Os yw eich cynnig yn mynd heibio i'r trothwy, bydd angen iddo gael ei ategu gan ganlyniadau profion ar gyfansoddiad cemegol dŵr fel rhan o Asesiad

Effeithiau ar Safle, i ddangos bod y dalgylchoedd yr effeithir arnynt yn gallu clustogi'r risg uwch o asideiddio. Byddwn ni'n cynnal yr Asesiad Effeithiau ar Safle ond, fel arfer, bydd angen ichi ddarparu'r data ynglŷn â chyfansoddiad cemegol y dŵr.

Byddwn hefyd yn gwirio i weld a oes gennym unrhyw ddata ynglŷn â chyfansoddiad cemegol dŵr ar gyfer y safle. Os oes angen rhagor o dystiolaeth, byddwn yn gofyn ichi gomisiynu labordy cwmwys i gasglu a dadansoddi samplau dŵr llif uchel ar gyfer Gallu Niwtraleiddio Asid. Fel arall, mae'n bosibl y byddwch am ddiwygio eich cynigion er mwyn iddynt ddod o fewn y trothwyon, a gallwn gynnig cyngor yn hyn o beth.

Bydd angen ichi drafod y telerau a'r amodau ar gyfer y samplu dŵr a'r adrodd â'r labordy a ddewisir, gan gynnwys y ffioedd a'r terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Bydd y labordy hwn hefyd yn rhoi cyngor ynglŷn â'r fethodoleg ar gyfer samplu dŵr. Bydd y labordy'n dadansoddi'r samplau dŵr ac yn rhoi adroddiad ichi.

Mae'r asesiad Gallu Niwtraleiddio Asid yn symlach na'r asesiad sydd ei angen ar gyfer ailstocio, ac os bydd angen data ynglŷn â chyfansoddiad cemegol dŵr arnoch i ategu eich cynlluniau ailstocio, mae'n bosibl y bydd yn gost effeithiol cynnal yr asesiad hwn ar yr un adeg â chasglu samplau dŵr ar gyfer y penderfyniad cwmpo coed (gweler Adran 7 ar gyfer canllawiau ynglŷn ag ailstocio).

Cam 5 Os yw'r Gallu Niwtraleiddio Asid yn fwy na 30 microcyfwerth i bob litr, penderfynir na fydd eich cwmpo coed arfaethedig yn peri'r risg o asideiddio a gellir ystyried eich trwydded cwmpo coed yn y modd arferol.

Cam 6 Os yw'r Gallu Niwtraleiddio Asid yn llai na 30 microcyfwerth i bob litr, penderfynir y bydd eich cwmpo coed arfaethedig yn peri risg o gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd dŵr croyw ac fel arfer na fyddwn yn dyroddi trwydded.

Bydd angen ichi naill ai ddiwygio eich Cais am Drwydded Cwmpo Coed er mwyn iddo ddod o dan y trothwy o 20%, neu ei ohirio nes bod y tair blynedd ofynnol ers unrhyw gwmpo coed arall yn yr ardal wedi mynd heibio. Gallwn drafod opsiynau â chi.

Mewn rhai amgylchiadau eithriadol, megis cwmpo coed i reoli plâu ac afiechydon, neu lle bydd cwmpo coed rhannol yn arwain at ddymchwel gan y gwynt a'r risg y bydd cyrsiau dŵr yn cael eu gwaddodi, mae'n bosibl y byddwn yn cytuno ar eithriadau, ond fel arfer byddwn yn gofyn am fesurau rheoli i leihau risg neu effaith trwytholchiad nitrad.

7. Ailstocio mewn Dalgylchoedd sy'n Sensitif i Asid

Mae cynnal gorchudd coetir ac osgoi datgoedwigo yn flaenoriaeth o dan strategaeth [Coetiroedd ar gyfer Cymru](#) Llywodraeth Cymru. Hefyd, o ganlyniad i ostyngiadau i allyriadau llygryddion, bydd coed sydd wedi cael eu hailstocio'n agored i lefelau llygredd is o lawer nag yn ystod y cylchdro blaenorol. Felly, bydd ailstocio yn dilyn cwmpo, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael ei gynnwys fel amod i unrhyw Drwydded Cwmpo Coed.

Fodd bynnag, lle bo modd, byddwn yn disgwyl i waith rheoli coedwigoedd mewn dalgylchoedd sy'n 'methu' gynnwys y mesurau rheoli yn 7.1.1 isod. Dylech gynnwys eich cynigion ar gyfer ailstocio fel rhan o'ch [Cais am Drwydded Cwmpo Coed](#) yn y ffordd arferol.

7.1 Mesurau Rheoli

Mae'n bosibl y cynhelir y rhain trwy reoli hirdymor yn hytrach nag amcan uniongyrchol, ac mae'n bosibl na fydd rhai'n ymarferol nac yn gyflawnadwy mewn rhai coedwigoedd oherwydd ffactorau megis y dirwedd, mynediad, uchelder, gwynt, hanes rheoli blaenorol ac ati:-

- Ystyried trosglwyddo i goedwigaeth orchudd barhaus neu systemau coedamaeth effaith isel lle bo hynny'n bosibl
- Anelu at glirio a chynyddu maint parthau torlannau, gan gynnwys y rhai o gwmpas sianeli cul (<1m)
- Anelu at alinio draeniau i dynnu cysylltiadau rhwng draeniau coedwig artiffisial a chyrsiau dŵr naturiol
- Anelu at gynnal ardaloedd corsiog neu wlyb fel mannau agored
- Datgysylltu draeniau wrth ochr y ffordd oddi ar gyrsiau dŵr naturiol
- Osgoi cynaeafu coed cyfan a sicrhau bod yr holl gyrsiau dŵr (natural neu artiffisial) yn cael eu cadw'n glir rhag unrhyw falurion

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn ichi ym mha ffordd rydych wedi ystyried y rhain.

8. Opsiynau ar gyfer Samplu Dŵr

Lle mae angen samplau dŵr, rhaid i'r gwaith hwn gael ei wneud gan unigolion sydd wedi derbyn hyfforddiant addas – gellir trefnu hyn gyda'r labordy rydych wedi'i ddewis neu gcontractwr arall y cytunwyd arno gyda ni. Rhaid i'r gwaith dadansoddi gael ei gynnal gan labordy cwmwys addas gyda therfynau canfod digonol fel yr amlinellir yn y Canllaw Arfer.

Gallwn roi cyngor ynglŷn â labordai addas ac mae'n rhaid inni gytuno ar y labordy rydych wedi'i ddewis cyn ichi gomisiynu ei wasanaethau.

8.1 Asesiadau Llwyth Critigol

Ar gyfer Asesiadau Llwyth Critigol, mae dwy fethodoleg samplu: y dull samplu llif uchel a'r dull analog. Dylid trafod pa un yw'r mwyaf priodol â'r labordy y cytunir arno gyda ni.

Samplu llif uchel

Mae'n bosibl y bydd adeg y flwyddyn ac amodau'r llif yn cyfyngu ar ba bryd y gellir casglu samplau; mae'n bosibl y bydd hyn yn peri oedi i'ch cynnig ond, fel arfer, cymerir samplau ar un adeg yn unig. Rhaid i'r labordy ddarparu'r data a'r canlyniadau cysylltiedig fel rhan o

adroddiad sy'n cynnwys y dull ar gyfer casglu'r data, asesiad o hyder yn y canlyniadau, a thystiolaeth o'r nodweddion llif uchel ar adeg y samplu.

Er y gall samplu llifoedd uchel fod yn rhatach na'r opsiwn arall, nid yw canlyniadau o un achlysur samplu'n cynnig lefel uchel o hyder. Pan fydd y canlyniadau'n agos (o dan y llwyth critigol ond o fewn 20% ohono), mae'r Canllaw Arfer yn ei gwneud yn ofynnol ailgynnal y sampluar ail a thrydedd adeg, a all gael effaith ar amserlenni a chostau.

Samplu analog

Gellir cynnal gwaith samplu ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ac mewn unrhyw amodau llif, cyn belled ag y gellir ei ategu gan waith samplu o safleoedd monitro hirdymor addas.

Mae'r dull hwn yn gofyn i bedair sampl fisol olynol gael eu cydgysylltu â'r gwaith hirdymor o gasglu samplau. Mae'n bosibl y bydd hyn yn ddrutach, gan fod angen casglu rhagor o samplau, ond gall y dull gynnig hyder uwch yn y canlyniadau sy'n cael eu cynhyrchu.

8.2 Gallu Niwtraleiddio Asid

Mae gallu niwtraleiddio asid yn fesur o allu cyffredinol y dyfroedd derbyn i glustogi yn erbyn y llwyth asid. Mae hwn yn ddadansoddiad symlach nag Asesiad Llwyth Critigol gan nad oes angen iddo ystyried casglu llygryddion asid o'r atmosffer. Mae'r trothwy a ddefnyddir yn un na fydd yn caniatáu cwmpo coed ond lle mae'r dyfroedd derbyn yn cael eu clustogi'n ddigonol yn erbyn unrhyw bwls nitrad i amddiffyn pysgod salmonid.

9. Calchu

Mae dull CNC ar gyfer ymdrin â'r gwaith o galchu nentydd coedwig i wneud iawn am asideiddio'n cael ei drafod yn null CNC ar gyfer ymdrin â chalchu.

10. Manylion cyswllt ar gyfer rhagor o wybodaeth

Mae gwybodaeth ynglŷn â'r Canllawiau Coedwigoedd a Dŵr ar gael gan sfmt@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae gwybodaeth ynglŷn â rheoleiddio coedwigaeth yng Nghymru ar gael gan forestregulations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae gwybodaeth ynglŷn â rôl CNC yng nghynlluniau coetir Glastir ar gael gan glastirqueries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

11. Dolenni defnyddiol

- [Canllaw arfer ar gyfer rheoli coedwigoedd mewn dalgylchoedd dŵr sy'n sensitif i asid](#)
- [Nodyn Ymchwil y Comisiwn Coedwigaeth ar Goedwigaeth ac Asideiddio Dŵr Wynneb](#)
- [Tudalennau Forest Research ar goedwigoedd a dŵr](#)
- [Canllawiau Coedwigoedd a Dŵr Safon Coedwigaeth y DU](#)
- [Trwyddedau Cwmpo Coed](#)
- [Canllaw Cyflym i Asesiad Effeithiau Amgylcheddol Coedwigaeth](#)
- [Cynllun coetir Glastir \(gwybodaeth CNC\)](#)
- [Arsylwi Dyfroedd Cymru](#)
- [Map Cyfleoedd Creu Coetir Glastir Lle](#)
- [Methodoleg Asesu Risg Asideiddio'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr](#)
- [Y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr – Cyrff Dŵr sy'n Sensitif i Asid Cylchred 2 \(2016\), lawrlwythiad data o Lle](#)
- Safon Coedwigaeth y DU

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwen, 8am-6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen hon ond trwy ganiatâd o flaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru